**Gallu defnyddio'r toiled cyn dechrau yn yr ysgol**

Dylai’r rhan fwyaf o blant fod wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled erbyn iddynt ddechrau'r ysgol. Lle nad yw hyn yn wir, dylai ysgolion a rhieni weithio gyda'i gilydd i ddeall y rhesymau am hyn, gan gynnwys gofyn am asesiad meddygol os yw'n briodol - mewn rhai achosion gall hyn gymryd amser, gan ddibynnu ar y cyflwr. Ni ellir gwrthod derbyn plentyn ar sail anghenion ymataliaeth, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled cyn dechrau'r ysgol yn garreg filltir bwysig yn natblygiad plentyn. Pan fydd plant yn dechrau yn y dosbarth meithrin neu'r dosbarth derbyn, yn y rhan fwyaf o achosion, gall ysgolion ddisgwyl y bydd rhieni/gofalwyr wedi’u helpu i ddiwallu eu hanghenion ymataliaeth ac i ddod yn gyfforddus â defnyddio'r toiled yn annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gwybod pryd y mae angen iddyn nhw fynd, defnyddio'r toiled, sychu eu hunain, fflysio a golchi eu dwylo. Fodd bynnag, am wahanol resymau, nid yw hyn bob amser yn wir. Mae pob plentyn yn datblygu'n wahanol. Gall rhai gyflawni ymataliaeth y bledren a'r coluddyn yn gyflym, tra bydd eraill efallai’n ei chael hi'n fwy anodd datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ochr yn ochr â cherrig milltir datblygiadol eraill.

Dylid deall nad yw oedi o ran y gallu i ddal dŵr  o reidrwydd yn gysylltiedig ag anawsterau dysgu, ADY neu anableddau ond y gall anghenion ymataliaeth plant a phobl ifanc effeithio ar eu gallu i gymryd rhan ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Fodd bynnag, pan fydd anghenion yn cael eu rheoli'n briodol, ni ddylai plant a phobl ifanc fod dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

**1. Gwahaniaethu rhwng Anymataliaeth Feddygol ac Anfeddygol**

Mae'n bwysig, lle bo modd,  wahaniaethu rhwng anymataliaeth sy'n gysylltiedig â chyflyrau meddygol (gan gynnwys ADY ac anableddau) a'r hyn nad yw'n seiliedig ar gyflwr meddygol. Gall y gwahaniaeth hwn ddylanwadu ar ddyrannu adnoddau a chymorth mewn ysgolion, gan sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni ac nad yw plant ag anghenion meddygol dan anfantais.

**2. Effaith adnoddau**

Er mai'r nod yw sicrhau nad oes anfantais i ddysgwyr, cydnabyddir y gall ysgolion â nifer uwch o ddisgyblion y mae angen cymorth gofal personol arnynt wynebu pwysau ychwanegol. Gall hyn gael effaith ar yr adnoddau i'w dyrannu o ran cefnogaeth gan gynorthwywyr addysgu lle defnyddir amser i gefnogi disgyblion ag anghenion gofal personol.

**3. Ni all ysgolion wrthod mynediad i blentyn sy’n dal i fod mewn cewynnau.**

Yn unol â **Deddf Cydraddoldeb 2010**, ni ellir gwrthod mynediad i blant a phobl ifanc i leoliadau oherwydd bod ganddynt anghenion ymataliaeth. Byddai unrhyw arfer derbyn sy'n gosod safon ymataliaeth gyffredinol yn wahaniaethol ac felly'n anghyfreithlon. Rhaid i leoliadau wneud addasiadau er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc ag anghenion ymataliaeth ac ni ddylent eu heithrio na'u trin yn wahanol oherwydd hyn.

Yn unol â **chanllawiau cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd Llywodraeth Cymru**:

*Nid yw'n arfer derbyniol i atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, a'i gwneud yn ofynnol i rieni, neu fel arall wneud iddynt deimlo rheidrwydd arnynt, i fynychu'r lleoliad addysg, taith neu weithgaredd arall oddi ar y safle i roi meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys materion mynd i'r toiled.*

Mae **Deddf Plant a Theuluoedd 2014** yn gosod dyletswydd statudol ar ysgolion i gefnogi disgyblion â chyflyrau meddygol, gan gynnwys problemau'r bledren a'r coluddyn. Os oes gan blentyn broblem ymataliaeth a nodwyd na fydd yn cael ei datrys cyn iddo ddechrau'r ysgol, p'un a yw'n gysylltiedig â hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled ai peidio, ni all yr ysgol wrthod mynediad.

### 4. Hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled a dechrau'r ysgol

Gall hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled fod yn amser llawn straen, yn enwedig os yw'r amser i ddechrau'r ysgol yn agosáu. Os nad yw'n digwydd yn hawdd, gall greu llawer o bryder i rieni a phlant.

Er bod gan ysgolion ddyletswydd gofal i bob plentyn, mae'n hanfodol i rieni/ofalwyr ddeall eu rôl wrth gefnogi datblygiad eu plentyn, gan gynnwys meistroli hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled. Mae cydweithio rhwng staff ysgol a rhieni a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn allweddol i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i blant y gall fod angen cymorth arnynt i ddod yn lân ac yn sych cyn mynychu'r ysgol. Drwy weithio gyda'i gilydd, gall rhieni ac addysgwyr greu amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo lles a llwyddiant pob plentyn.

### 5. Casglu Data

Anogir ysgolion i gasglu data dienw ar gyffredinrwydd anghenion ymataliaeth ymhlith disgyblion. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer datblygu canllawiau ymatebol a gwerthuso'u heffeithiolrwydd dros amser.

Os oes gan unrhyw blentyn gyflwr meddygol neu anghenion dysgu ychwanegol sy'n gwneud hyn yn anodd, dylai rhieni roi gwybod i'r ysgol fel y gallant weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol. Gweler yr adran Cyfathrebu â Rhieni ymhellach isod.

### 6. Cyd-destun Polisi Diweddar

Mae datganiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru'n tynnu sylw at y pwysau cynyddol ar ysgolion i gefnogi anghenion ehangach plant. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio cydbwyso dyletswyddau statudol â'r realiti ymarferol sy'n wynebu ysgolion, gan sicrhau nad yw cefnogaeth ar gyfer anghenion ymataliaeth yn effeithio'n ormodol ar ddysgu ac addysgu nac yn creu disgwyliadau afrealistig ymhlith rhieni.

**7. Fe'i hystyrir yn gyffredinol nad yw'n ymarferol gofyn i rieni ddod i'r ysgol er mwyn newid cewyn eu plentyn yn unig.**

Er y gall staff yr ysgol arfer disgresiwn ac ystyried pob sefyllfa'n seiliedig ar anghenion unigol y plentyn e.e. ei gynllun gofal iechyd, fel arfer mae'n well ymdrin â digwyddiadau o'r fath yn yr ysgol. Mae hyn yn gysylltiedig â chanllawiau Llywodraeth Cymru a nodir uchod yn adran 3.

## 8. Diogelu

Ar gyfer diogelu, nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddau aelod o staff fod yn bresennol wrth newid cewyn plentyn, ond gall hyn fod y trefniant a ffefrir wrth fagu hyder staff. Os yw aelod o staff yn newid cewyn plentyn ar ei ben ei hun, rhaid iddo roi gwybod i gydweithiwr pan fydd yn darparu gofal personol, a dylai oedolyn arall fod gerllaw neu o fewn clyw. Dylid dogfennu gweithdrefnau a chael caniatâd rhieni. Gall nifer y staff sy'n bresennol amrywio, yn dibynnu ar anghenion penodol y plentyn, polisi gofal personol yr ysgol, y cynllun gofal personol unigol/cynllun gofal iechyd unigol, ac anghenion penodol y plentyn, fel ymddygiad, pryderon diogelu, neu ofynion codi a chario.

Mae'n arfer da sicrhau bod pob agwedd ar ofal ymataliaeth yn yr ysgol yn cael ei dogfennu ymlaen llaw gan ddefnyddio cynllun gofal personol neu yn y cynllun gofal iechyd unigol ei hun.

## 9. Canllawiau ADY

I blant ag anghenion ychwanegol, gall hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled fod yn eithaf brawychus a gall ymddangos fel nod amhosib. Fodd bynnag, dengys ymchwil a phrofiad fod hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled yn nod cyraeddadwy i lawer o blant ag anghenion ychwanegol. Mae pob plentyn yn unigryw, a gall hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled gymryd peth amser. Arhoswch yn gadarnhaol, yn amyneddgar ac yn gefnogol drwy gydol y broses.

Pan fyddwch yn hyfforddi plant ag anghenion ychwanegol i ddefnyddio'r toiled, dilynwch y rheolau syml hyn:

- Ewch ati i hyfforddi ar gyflymdra'r plentyn
- Gwnewch bopeth mor hwyliog ac mor ysgafn â phosib a rhowch lawer o ganmoliaeth ac anogaeth.
- Os nad yw'n gweithio, stopiwch yr hyfforddiant am ychydig wythnosau neu fisoedd a dechreuwch eto ar adeg arall pan fydd y plentyn fel petai’n barod.
- Sicrhewch fod pob cam yn gyraeddadwy a bod modd i'r plentyn lwyddo a pheidiwch â gwneud iddo deimlo'n wael amdano'i hun mewn unrhyw ffordd.
- Peidiwch â gadael i hyn fod yn waith diflas na gadael iddo eistedd am rhy hir.
- Cyfrifwch lwyddiannau, nid pan nad yw'n digwydd. Mae eistedd ar y poti neu'r toiled yn llwyddiant.
- Gofynnwch am gyngor gan Ymwelwyr Iechyd Arbenigol lle bo hynny'n briodol ac ewch i'r hyfforddiant 'Cefnogi dysgwyr â gofal personol' a ddarperir gan Dîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ALNIT) Cyngor Abertawe.

**Canllawiau Defnyddiol**

Hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled neu’r poti (yn addas o'u hail flwyddyn o fywyd) | LLYW. CYMRU

Taflen gyngor ar reoli dysgu defnyddio’r poti (llyw.cymru)

GIG 111 Cymru - Canllaw Beichiogrwydd – Hyfforddiant i ddefnyddio'r poti

GIG 111 Cymru - Canllaw Beichiogrwydd - Problemau hyfforddiant i ddefnyddio’r poti

Hyfforddiant i ddefnyddio’r poti - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gig.cymru)

---

**Cyfathrebu â rhieni (y cam 1af)**

??????????? Mae Ysgol Gynradd ......... yn edrych ymlaen at groesawu eich plentyn i'r dosbarth meithrin ym mis Medi 20??. Mae'n ddisgwyliad bod plant yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r toiled pan fyddant yn dechrau'r dosbarth Meithrin, fodd bynnag, rydym yn deall bod pob plentyn yn wahanol ac er y bydd y rhan fwyaf o blant yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r toiled pan fyddant yn dechrau'r dosbarth Meithrin, bydd angen cymorth oedolion ar rai o hyd.

Os ydych chi'n teimlo y gall fod angen cymorth ar eich plentyn gyda'i anghenion gofal personol yn yr ysgol ac nad ydych wedi siarad â'r ysgol eto, siaradwch â ni a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddiwallu anghenion unigol eich plentyn. Gallwn hefyd eich cyfeirio i'r cyfeiriad cywir am gymorth pellach gan y gwasanaethau iechyd. Mae rhai o'r rhain ar gael isod:

Hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled neu’r poti (yn addas o'u hail flwyddyn o fywyd) | LLYW. CYMRU
Cyngor i Rieni - Hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled neu’r poti (llyw.cymru)

**Cyfathrebu â rhieni (unwaith y bydd y plentyn yn yr ysgol)**

Ers i ??????????????? (rhowch enw'r plentyn) ddechrau gyda ni rydym wedi bod yn ei gefnogi gyda rhywfaint o ofal personol (defnyddio'r toiled). Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r toiled cyn dechrau'r ysgol neu cyn gynted â phosib ar ôl yr amser hwn oni bai fod ganddynt anghenion meddygol penodol.

Os ydych chi'n teimlo bod gan eich plentyn unrhyw anghenion ychwanegol neu os hoffech drafod y mater hwn ymhellach, ac nid ydych wedi siarad â'r ysgol eto, siaradwch â ni a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddiwallu anghenion unigol eich plentyn. Gallwn hefyd eich cyfeirio i'r cyfeiriad cywir am gymorth pellach gan y gwasanaethau iechyd. Mae rhai o'r rhain ar gael isod:

Hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled neu’r poti (yn addas o'u hail flwyddyn o fywyd) | LLYW. CYMRU
Cyngor i Rieni - Hyfforddiant i ddefnyddio’r toiled neu’r poti (llyw.cymru)